# Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau

## 20 Tachwedd 2024

Yn bresennol: Y Cynghorydd Mrs D Clements, Dr M Havard a Mr I Thomas (Aelod Lleyg).

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 2.00pm – 2.45pm)

**1. Penodi Cadeirydd**
**Penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd Clements yn Gadeirydd y cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Heath-Davies a'r Cynghorydd A Tinley.

**3. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**4. Gwahardd y cyhoedd**
**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod gan fod gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**5. Penodi Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau**
Atgoffwyd y Panel fod swydd wag wedi codi i Aelod Annibynnol wasanaethu ar Bwyllgor Safonau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd un ymgeisydd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad i lenwi'r swydd wag.

**Penderfynwyd,** yn unol â Pharagraff 16 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, argymell Awdurdod y Parc Cenedlaethol benodi Mr John Hogg yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 5 mlynedd o 11 Rhagfyr 2024 ymlaen, yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau presennol fel y'u cymeradwywyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2006.